# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Gwener, 3 Gorffennaf 2020

Amser: 09.00 - 11.28

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6393

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Ann Jones AS (Cadeirydd)<br>Mick Antoniw AS<br>Jayne Bryant AS<br>Janet Finch-Saunders AS<br>Russell George AS<br>John Griffiths AS<br>Llyr Gruffydd AS<br>Mike Hedges AS<br>Dai Lloyd AS<br>Lynne Neagle AS<br>Nick Ramsay AS<br>David Rees AS<br>Caroline Jones AS<br>Helen Mary Jones AS |

| | |
|---|---|
| Tystion: | Simon Brindle, Llywodraeth Cymru<br>Tracey Burke, Llywodraeth Cymru<br>Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru<br>Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru<br>Jeremy Miles AS, Y Gweinidog fydd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd<br>Andrew Slade, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Mared Llwyd (Ail Glerc)<br>Ross Davies (Dirprwy Glerc)<br>Matthew Richards (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Lucy Morgan (Ysgrifenyddiaeth) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd ymddiheuriadau na datganiadau o fuddiant.

## 2 Ymateb Llywodraeth Cymru i bandemig Covid-19 a'r adferiad

Holodd y Pwyllgor y Prif Weinidog ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i bandemig Covid-19 a'r cynlluniau ar gyfer sicrhau adferiad yn y dyfodol.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Trafod y dystiolaeth o'r sesiwn flaenorol

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn y sesiynau blaenorol a chytunodd i ysgrifennu at y Prif Weinidog er mwyn gofyn am ragor o wybodaeth am nifer o faterion a oedd yn weddill.

## 5 Trefniadau cyfarfodydd yn y dyfodol

Cytunodd y Pwyllgor i gynnal nifer cynyddol o gyfarfodydd yn nhymor yr hydref er mwyn hwyluso'r broses o wneud gwaith craffu parhaus ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i bandemig Covid-19. Cytunodd y Pwyllgor i drefnu dau gyfarfod gyda'r Prif Weinidog ar gyfer y Pwyllgor llawn, yn ogystal â dau gyfarfod gyda'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer is-grŵp o aelodau'r Pwyllgor. Bydd cyfarfodydd yr is-grŵp yn ymdrin â chyfrifoldebau'r Cwnsler Cyffredinol o ran goruchwylio'r gwaith adfer mewn perthynas â Covid-19.